# Ein Dull o Weithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

## Dogfen Amgaeedig 1



2024 - 2025

*Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Gymraeg. Gweler y dudalen Gymraeg ar ein gwefan.*
*This document is also available in Welsh. See Welsh page on our website.*

Find us on

CYNGOR SIR Y FFLINT
FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL

# Beth yw pwrpas y ddogfen hon?

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein dull o asesu trefniadau llywodraethu'r Cyngor a chwblhau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r ddogfen hon 'Ein Dull o Weithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol' (Dogfen Amgaeedig un) yn esbonio:

- Beth yw Llywodraethu
- Beth yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Sut mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi
- Prif egwyddorion y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol
- Cyfraniadau at Fframwaith Llywodraethu Effeithiol
- Sut ydym wedi monitro a gwerthuso effeithiolrwydd ein trefniadau llywodraethu

Mae manylion canlyniadau ein hasesiad i nodi meysydd arfer orau a meysydd i'w gwella ymhellach i'w gweld yn nogfen Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25 – Rhan 2.

# Beth yw Llywodraethu?

"*Mae llywodraethu yn ganolbwynt i wasanaethau cyhoeddus. Mae'n sail i'r ffordd y caiff adnoddau eu rheoli, y ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud, y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a'r effaith y maent yn eu cael, nawr ac yn y dyfodol. Mae hefyd yn hydreiddio i'r ffordd y mae sefydliadau yn cael eu harwain a sut maent yn rhyngweithio gyda'r cyhoedd. Mae angen i lywodraethu fod yn gadarn ond mae'n rhaid iddo hefyd fod yn gymesur. Mae sefydliadau a lywodraethir yn dda yn ddeinamig ac yn cymryd risgiau sy'n cael eu rheoli'n dda; nid ydynt yn farwaidd nac yn fiwrocrataidd.*"[1]

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys diwylliant, gwerthoedd, systemau a phrosesau sy'n sail i'r ffordd y caiff sefydliad ei gyfarwyddo a'i reoli. Mae'r fframwaith yn dod â chyfres sylfaenol o ofynion deddfwriaethol, egwyddorion arfer da a phrosesau rheoli at ei gilydd.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system lywodraethu gadarn yn ei lle. Mae'r Cyngor wedi datblygu Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n diffinio'r egwyddorion sy'n sail i lywodraethu'r sefydliad. Mae'r Cod Lleol yn ffurfio rhan o Gyfansoddiad y Cyngor a gellir ei weld ar wefan y Cyngor. Mae crynodeb o'r egwyddorion sy'n sail iddo i'w gweld yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Mae ein fframwaith llywodraethu yn cefnogi ein nod fel corff cyhoeddus modern, sydd â'r **athroniaeth** o weithredu fel busnes cymdeithasol sydd:

- Yn ddarbodus, modern, effeithlon ac effeithiol;
- Wedi'i lunio, ei drefnu a'i weithredu i ddiwallu anghenion cymunedau a'r cwsmer
- Yn gweithio gyda'n partneriaid i gyrraedd y safonau gwasanaeth cyhoeddus uchaf posibl er lles Sir y Fflint fel sir

I wireddu'r dyheadau hyn, rydym wedi gosod y **safonau** canlynol:

- Cyflawni rhagoriaeth mewn llywodraethu corfforaethol ac enw da
- Cyflawni rhagoriaeth mewn perfformiad yn erbyn ein targedau ein hunain ac yn erbyn targedau sefydliadau eraill tebyg i ni sy'n perfformio ar lefel uchel
- Bod yn fodern ac yn hyblyg, gan addasu'n gyson i ddarparu gwasanaeth a chymorth o'r safon uchaf i'r cyhoedd, cwsmeriaid a chleientiaid
- Defnyddio ei bedwar adnodd – arian, asedau, pobl a gwybodaeth, yn strategol, effeithiol ac effeithlon
- Croesawu a gweithredu systemau a phrosesau busnes darbodus, effeithiol, effeithlon a llai biwrocrataidd

I gyrraedd y safonau hyn bydd ein **hymddygiad** yn:

- Dangos arweinyddiaeth strategol yn y sefydliad ac yn ein partneriaethau
- Herio, adolygu, newid a moderneiddio'r ffordd yr ydym yn gwneud pethau yn barhaus
- Bod mor ddarbodus ag sy'n bosibl a chadw biwrocratiaeth i'r lefel isaf bosibl
- Manteisio i'r eithaf ar dechnoleg newydd
- Manteisio i'r eithaf ar drefniadau gweithio hyblyg

Rydym yn ymroddedig i'r **egwyddorion** canlynol:

- Bod yn gyflogwr modern, teg a gofalgar
- Bod yn deg, cyfiawn a chynhwysol yn ein polisïau a'n hymarferion
- Bod yn gydwybodol wrth gynllunio a rheoli ein gweithgareddau a gwneud penderfyniadau mewn modd cynaliadwy

Rydym yn ymrwymo i werthoedd ac egwyddorion penodol wrth weithio gyda'i bartneriaid a phartneriaethau allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys partneriaethau strategol megis y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r trydydd sector, gan gynnwys cytuno ar set o egwyddorion Ariannu'r Sector Gwirfoddol.



[1] Swyddfa Archwilio Cymru: "Papur Trafod: Yr heriau llywodraethu sy'n cael eu creu gan wasanaethau a ddarperir yn anuniongyrchol ac a ariennir gan y cyhoedd yng Nghymru" 2017

# Beth yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol?

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2018 yn mynnu ein bod yn paratoi datganiad ar reolaeth fewnol. Fel sawl awdurdod yng Nghymru, cyfeirir ato fel y 'Datganiad Llywodraethu Blynyddol'. Dogfen gyhoeddus yw hon sydd yn adrodd am y graddau rydym ni fel Cyngor yn cydymffurfio â'n cod llywodraethu ein hunain.

Yn y ddogfen hon byddwn ni, y Cyngor yn:

- Cydnabod ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system lywodraethu gadarn mewn lle
- Crynhoi elfennau allweddol y fframwaith llywodraethu a rolau'r rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r amgylchedd llywodraethu
- Disgrifio sut rydym wedi monitro a gwerthuso effeithlonrwydd ein trefniadau llywodraethu yn y flwyddyn, ac unrhyw newid sydd wedi'i gynllunio yn y cyfnod i ddod
- Rhoi manylion ar sut rydym wedi ymateb i unrhyw fater a nodwyd yn natganiad llywodraethu'r llynedd
- Adrodd ar unrhyw fater llywodraethu a nodwyd o'r adolygiad hwn ac ymrwymo i fynd i'r afael â nhw; ac
- Wrth gyfeirio at y Cyngor, mae hyn yn cynnwys ei berthynas grŵp ag endidau eraill megis New Homes, Newydd a Gwella

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adrodd ar y fframwaith llywodraethu sydd wedi bod ar waith yng Nghyngor Sir y Fflint yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 ac mae wedi'i ddiweddaru gyda chymeradwyaeth Datganiad Cyfrifon Blynyddol.

# Sut mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi?

Cafodd adolygiad cychwynnol ein fframwaith llywodraethu ei gynnal gan y Gweithgor Llywodraethu Corfforaethol. Fe wnaeth y grŵp hwn baratoi holiaduron ar gyfer pob Prif Swyddog corfforaethol a hefyd rhai swyddogaethau llywodraethu penodol fel cyllid, adnoddau dynol a chyfreithiol. Roedd ein dull yn seiliedig ar y saith egwyddor sy'n dilyn y brif ran o'r ddogfen hon, a chawsant eu hasesu i nodi unrhyw faes ar gyfer gwelliant. Cynhaliwyd gweithdy herio ar gyfer aelodau'r Cabinet, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn mynd drwy sgorau cychwynnol y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a llenwodd aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac aelodau o'r Pwyllgor Safonau holiadur a oedd yn crynhoi themâu o'r gweithdy.

Mae gwaith paratoi a chynnwys y trefniadau llywodraethu eleni wedi eu hystyried gan y swyddogion statudol, gyda chefnogaeth i roi sicrwydd gan Archwilio Mewnol, y Cabinet, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac Archwilio Cymru. Rydym yn cydnabod nad yw ein fframwaith llywodraethu'n gallu dileu pob risg o fethu cyflawni'r targedau yn ein polisïau, nodau ac amcanion ac felly gall ddarparu sicrwydd cymesur ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd.

Wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, rydym wedi:

- Adolygu trefniadau llywodraethu presennol y Cyngor yn erbyn y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol
- Diweddaru'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol lle bo hynny'n angenrheidiol, i adlewyrchu newidiadau yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor a gofynion newydd CIPFA / Solace 2016 – Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer Awdurdodau Cymru
- Asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor ac amlygu unrhyw newid a gynlluniwyd yn y cyfnod sydd i ddod
- Ystyriwyd y canfyddiadau yn yr Hunanasesiad Corfforaethol

Mae Tîm y Prif Swyddogion, dan arweiniad y Prif Weithredwr; hefyd wedi ystyried y materion llywodraethu a'r egwyddorion sy'n wynebu'r Cyngor. Ceir tystiolaeth o'r rhain yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 2) o dudalen 11 o'r ddogfen. Mae egwyddorion a gafodd eu hasesu fel bod angen gwelliant pellach wedi'u manylu rhag dudalen 27.

Mae ein Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ar effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu, fframwaith rheoli risg ac amgylchedd rheoli mewnol. Fel rhan o'r rôl hon mae'r Pwyllgor yn adolygu a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd i ystyried a rhoi sylwadau am y cynnydd a wnaed ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol diwethaf ac unrhyw fater pellach i'w hystyried. Roeddent yn fodlon â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyffredinol.

Mae'r pum cadeirydd Trosolwg a Chraffu hefyd wedi ystyried a gwneud sylwadau ar y materion o fewn cylch gwaith eu pwyllgorau priodol yn ogystal ag aelodau Cabinet. Ar y cyfan, roeddynt yn fodlon ac yn cytuno â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

# Beth yw prif egwyddorion y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol?

Rydym yn bwriadu cyflawni safon lywodraethu dda drwy gadw at saith egwyddor CIPFA/Solace 2016 – Nodiadau Canllaw i Awdurdodau Cymru, sy’n ffurfio sail y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol. Y saith egwyddor allweddol yw:

**Egwyddor A** Ymddwyn gyda chywirdeb, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith
**Egwyddor B** Sicrhau bod y Cyngor yn agored a’i fod yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn drylwyr
**Egwyddor C** Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
**Egwyddor D** Penderfynu ar yr ymyraethau sy’n angenrheidiol i gyflawni’r canlyniadau a fwriedir cystal ag sy’n bosibl
**Egwyddor E** Datblygu gallu ein sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo
**Egwyddor F** Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gryf
**Egwyddor G** Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol

Er bod y Cod yn cyfeirio at ‘endid’, er mwyn sicrhau eglurdeb rydym ni wedi defnyddio ‘ein sefydliad’ yn lle.

# Cyfraniadau at Fframwaith Llywodraethu effeithiol

| | |
|---|---|
| Y Cyngor | • Cymeradwyo Cynllun y Cyngor<br>• Cefnogi'r Cyfansoddiad |
| Y Cabinet | • Prif gorff gwneud penderfyniadau'r Cyngor<br>• Yn cynnwys Arweinydd y Cyngor ac aelodau Cabinet sy'n gyfrifol am bortffolios penodol |
| Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | • Helpu i godi proffil rheolaeth fewnol, rheoli risg a materion adrodd ariannol o fewn y Cyngor, yn ogystal â rhoi fforwm i drafod y materion a godwyd gan archwilwyr mewnol ac allanol |
| Pwyllgor Safonau | • Mae'r Pwyllgor Safonau'n hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad gan aelodau etholedig a chyfetholedig, ac yn monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau<br>• Mae Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried ac yn cynnig newidiadau i'r Cyfansoddiad a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol |
| Portffolio | • Monitro arbedion effeithlonrwydd, amlygu risg a chamau lliniaru<br>• Ystyried cadernid cynllunio rhag argyfwng a rhagweld ac ystyried darparu adnoddau ar gyfer darpariaeth a gynlluniwyd |
| Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu | • Adolygu a chraffu ar benderfyniadau a pherfformiad y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau<br>• Adolygu a chraffu ar benderfyniadau a pherfformiad cyrff cyhoeddus eraill gan gynnwys partneriaethau<br>• Cynorthwyo'r Cyngor a'r Cabinet i ddatblygu'r fframwaith Cyllideb a Pholisi drwy ddadansoddiad manwl o faterion polisi<br>• Sefydlu Grŵp Cyswllt Cadeiryddion/Is-Gadeiryddion |
| Tîm y Prif Swyddogion a Rheolwyr Gwasanaeth | • Gosod safonau llywodraethu<br>• Arwain a chymhwyso safonau llywodraethu ar draws portffolios<br>• Cynnal hunanasesiad blynyddol |
| Archwilio Mewnol | • Darparu barn annibynnol a gwrthrychol flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaeth fewnol, rheoli risg a threfniadau llywodraethu<br>• Ymchwilio i dwyll ac anghysondebau |

# Sut ydym wedi monitro a gwerthuso effeithiolrwydd ein trefniadau llywodraethu?

Yn flynyddol, rydym yn adolygu effeithiolrwydd ein fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system reoli fewnol. Manylir ar elfennau allweddol sicrwydd sy'n sail i'r adolygiad llywodraethu hwn isod:

| Tîm y Prif Swyddogion | Swyddog Monitro | Swyddog Adran 151 | Llywodraethu Gwybodaeth | Archwilio Mewnol |
|---|---|---|---|---|
| • Trosolwg corfforaethol a chynllunio strategol<br>• Asesiad Llywodraethu Corfforaethol Blynyddol<br>• Gweithredu a monitro protocolau rheoleiddio a phrotocolau llywodraethu eraill | • Sicrwydd cyfreithiol a rheoleiddiol<br>• Monitro gweithrediad y Cyfansoddiad<br>• Ymchwiliadau'r Ombwdsmon<br>• Uwch-Berchennog Risg Gwybodaeth | • Gweinyddu materion ariannol y Cyngor yn briodol | • Mae'r Swyddog Monitro wedi'i ddynodi fel Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth y Cyngor<br>• Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth yw ein Swyddog Diogelu Data<br>• Cydymffurfiaeth Gwybodaeth gan gynnwys polisïau, gweithdrefnau a systemau cysylltiedig (Diogelu Data, Rhyddid Gwybodaeth)<br>• Diogelwch Gwybodaeth, Safonau Gwybodaeth a Rheoli Cofnodion | • Adroddiad barn blynyddol ar ddigonolrwydd trefniadau rheoli mewnol, rheoli risg a threfniadau llywodraethu<br>• Cynllun Archwilio Mewnol ac olrhain adroddiadau / perfformiad gan y Pwyllgor Archwilio<br>• Darparu cyngor ac ymgynghoriaeth |
| **Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu** | **Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** | **Rheoli Risg** | **Archwilio Allanol / Archwiliadau** | **Gwrth-dwyll** |
| • Adolygu a herio polisi<br>• Trosolwg a chraffu pynciau<br>• Monitro Perfformiad a Risg Corfforaethol a Phortffolios | • Hunanasesu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>• Adolygu effeithiolrwydd archwilio mewnol ac allanol<br>• Ystyried digonolrwydd y trefniadau rheoli mewnol, rheoli risg a Llywodraethu | • Polisi a Strategaeth Rheoli Risg<br>• Monitro ac adrodd ar Risgiau Strategol bob chwarter i'r Cabinet, y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | • Archwilio Datganiadau Ariannol<br>• Adolygiadau thematig a chenedlaethol<br>• Archwiliadau allanol eraill | • Trefniadau gwrth-dwyll a llygredigaeth a rhannu pryderon<br>• Codau Ymddygiad i Swyddogion ac Aelodau<br>• Rheolau Gweithdrefnau Ariannol a Chontractau |

# FFRAMWAITH LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL CYNGOR SIR Y FFLINT

## Dogfennau Allweddol Cyhoeddus: Adolygiad Blynyddol / Cynhyrchu

- Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Adroddiad Cyllid Alldro Blynyddol
- Adroddiad Perfformiad Blynyddol
- Datganiad Llywodraethu Gwybodaeth Blynyddol
- Y Strategaeth Gyfalaf a’r Cynllun Rheoli Asedau
- Cod Llywodraethu Corfforaethol
- Cod Ymarfer Moesegol ar gyfer Caffael
- Rheolau’r Weithdrefn Gontractau
- Strategaeth Ddigidol
- Archwiliad Cyflog Cyfartal (Adroddiadau Cyflogau yn ôl Rhyw)
- Rheolau Gweithdrefn Ariannol
- Cynllun y Cyngor
- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
- Cynllun Lwfansau Aelodau
- Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu
- Strategaeth Pobl
- Cynlluniau Busnes Portffolio
- Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Datganiad Cyfrifon
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol
- Strategaeth Rheoli’r Trysorlys
- Adroddiad Archwilio Cymru
- Datganiad Polisi Tâl

## Dogfennau Allweddol: Adolygiad Ad-hoc / Cynhyrchu

- Cynllun Gwaith Gwrth-dwyll
- Cynlluniau Parhad Busnes
- Egwyddorion Cyfathrebiadau
- Y Cyfansoddiad
- Strategaeth Ddigidol
- Polisi Diogelu Data
- Polisïau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Polisïau Cyflogaeth
- Polisïau Iechyd a Diogelwch
- Protocol Archwilio Mewnol/Allanol
- Polisïau TG
- Cod Ymddygiad Aelodau
- Cod Ymddygiad Swyddogion
- Strategaeth Gaffael
- Y Fframwaith Rheoli Risg
- Polisi Cyfryngau Cymdeithasol
- Safonau’r Gymraeg
- Polisi Rhannu Pryderon

## Prosesau sy’n Cyfrannu at Fonitro Rheoleiddiol

- Gwerthuso a Goruchwylio
- Rheoli Presenoldeb
- Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Adroddiadau Monitro’r Gyllideb
- Sylwadau, Cwynion a Chanmoliaethau
- Llywodraethu Corfforaethol
- Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
- Fframwaith Llywodraethu (Cynllun) y Cyngor
- Cyfarfodydd y Cyngor
- Ymgysylltu ac Ymgynghori
- Archwilio Allanol
- Gwefan Cyngor Sir y Fflint
- Adroddiadau Arolygiaeth
- Ymsefydlu (Corfforaethol a Gwasanaethau)
- Archwilio Mewnol
- Swydd-ddisgrifiadau a Manylion am yr Unigolyn
- Pecynnau Gwaith Rheolwyr
- Hyfforddiant i Aelodau
- Swyddog Monitro
- Hunanasesiadau Partneriaethau
- Rheoli Perfformiad
- Rheoli Risg
- Fframwaith Craffu
- Newyddlen Eich Cyngor Chi